



# Cyngor Cymuned Llandwrog

## Cofnodion Cyfarfod y Cyngor

17 Hydref 2016

# Cyngor Cymuned Llandwrog

## **Cofnodion y cyfarfod o Gyngor Cymuned Llandwrog a gynhaliwyd Nos Lun, 17 Hydref 2016 yn Neuadd Pentref Y Groeslon.**

### **Yn bresennol- 9 aelod**

Cyng. Alun Wyn Jones, Y Groeslon; Cyng. Gwyn Owen Jones, Y Fron; Cyng. David Marc Lewis, Y Fron;, Llandwrog; Cyng. Helen Hughes, Carmel; Cyng. Hywel J Owen , Y Groeslon; Cyng. Gerwyn Owen, Y Groeslon; Cyng. Robin Silyn Jones, Y Groeslon; Cyng. Bryn Williams , Cyng. Alan Patterson, Carmel a'r Clerc

Hefyd yn bresennol Cadeirydd Cyngor Gwynedd ac yn cynrychioli etholaeth Dinas Dinlle, Cyng., Eric Jones

### 16-10-01 **1 Croeso'r Cadeirydd**

Agorwyd y cyfarfod gan is-gadeirydd y Cyngor, Cyng. Bryn Williams.

Estynnwyd croeso cynnes i bawb.

### 16-10-02 **2 Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan yr aelodau canlynol -

Cynghorwyr Dyfed Williams, Llandwrog; Alan Patterson, Carmel; Cyng. Robert Isaac Jones, Llandwrog

Adroddwyd gan y clerch fod Cyng. Gethin Thomas wedi ymddiswyddo oherwydd pwysau gwaith.

### 16-10-03 **3 Datgan Buddiant neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu**

Cyng. David Lewis , Y Fron - eitem - yn gyflogedig gan Gyngor Gwynedd. Dim buddiant yn rhagfarnu

Cyng. Gwyn Owen Jones - yn gyflogedig gan Gyngor Gwyned. Dim buddiant yn rhagfarnu

Cyng. Alun Wyn Jones - yn gyflogedig gan Gyngor Gwyned. Dim buddiant yn rhagfarnu

Fel cyfarfod diwethaf o'r Cngor (19 Medi 2016) mynegodd Cyng. Robin Silyn Jones y dylai aelodau o'r Cyngor sydd yn gyflogedig gan Gyngor Gwynedd ddatgan buddiant a buddiant sydd yn rhagfarnu ar eitem toiled y marine. Ymhellach awgrymwyd gnndo dylai'r aelodau hynny ddatgan buddiant ar holl faterion a ddaw o'r Cyngor Sir. Toriadau ariannol y Cyngor Sir yn golygu bod dyfodol holl swyddi gan gynnwys'back office; a gyflogir gan CG mewn perygl felly yn cynnwys swyddi sydd gan aelodau o'r Cyngor hwn. Dywedodd y Clerc fod Un Llais Cymru wedi rhoi'r arweiniad canlynol -

*Dylai'r cynghorwyr perthnasol ystyried eu sefyllfa mewn perthynas â'r busnes sy'n cael ei drafod mewn gohebiaeth gyda'r Cyngor Sir. Dylent ystyried os oes ganddyn nhw ddiddordeb personol neu ddiddordeb personol sy'n rhagfarnu ym mhob achos, yn hytrach na datgan diddordeb ym mhob mater sy'n ymwneud a'r Cyngor Sir.*

*O safbwynt y clerch, dylid gwneud asesiad tebyg ym mhob achos dan arweiniad y Cod Ymddygiad i Swyddogion.*

*Fel y soniais, gan fod gymaint o faterion yn dod i law o'r Cyngor Sir, nid yw'n angenrheidiol datgan diddordeb ym mhob un. Er hynny, er mwyn sicrwydd, byddwn yn awgrymu fod eich clerch yn gofyn am arweiniad gan y Swyddog Monitro a allai ystyried for ar eich Cyngor angen caniatâd arbennig mewn perthynas â rhai materion, e.e. Os ydi un o'r cynghorwyr yn gweithio yn yr adran cynllunio gallai fod yn addas gofyn am ganiatâd er mwyn ystyried ceisiadau cynllunio yn y cyngor cymuned.*

Sylwadau Aelodau –

AWJ - sawl mater ar bob rhaglen yn ymwneud a busnes y Cyngor Sir ddim o fuddiant uniongyrchol i aelodau.

HJO – angen i aelodau ystyried eu sefyllfa a bod yn ofalus. Awgrymu cael barn gyfreithiol ar y mater?

HH – cytuno gyda AWJ

GOJ - rhaid dilyn cyfarwyddiadau Un Llais gan mai hwn yw'r corff sydd yn rhoi arweiniad i'r Cyngor. Rhaid i aelodau ddilyn y cyfarwyddiadau hynny. Mae sawl mater wedi codi mewn cyfarfodydd sydd yn dod o'r Cyngor Sir yn y gorffennol sydd yn debyg i'r eitem ar toiled y marine, megis biniau halen, cyfraniad y fflag glas - does neb codi'r mater ac wedi disgwyl i aelodau sydd yn gyflogedig gan Cyngor Gwynedd i ddatgan buddiant yn yr achosion hynny.

Cytunwyd mewn achosion fel hun i'r dyfodol fod y Cyngor yn ymddiried a derbyn mai'r cynghorydd unigol sydd i ddatgan yn ôl ei ddewis - felly yn gofnod i'r mater gael ystyriaeth a thrafodaeth felly yn "clirio" y cyngor fel y cyfrwy.

#### 16-10-04 **4 Derby Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol fel Rhai Cywir (19 Medi 2016)**

Cyng. Robin Silyn Jones - Yn cynnig i beidio â derbyn y cofnodion fel rhai cywir gan nad oedd trafodaeth ynglŷn â datgan buddiant wedi ei gofnodi.

Dywedodd y Clerc nad oedd penderfyniad wedi ei wneud ar y mater yn cyfarfod fis Medi ac mai trafodaeth yn unig ydoedd. Amhosib cofnodi pob trafodaeth ac mae Aelodau yn cael y cyfle i roi sylwadau i'r Clerc cyn i'r cofnodion gael ei gylchredeg.

Cyng. Hywel J Owen - angen addasu cofnod cyf 16-09-12 fel a ganlyn -

*Fod y Cyngor yn oedi cyn penderfynu ar y cam nesaf hyd nes y bydd y Cyngorwyr Sir (Eric Jones a Dilwyn Lloyd) yn trafod y mater yn cyfarfod nesaf o'r Cyngor llawn*

***Penderfynwyd peidio â chadarnhau cofnodion 19 Medi 2016 hyd nes y bydd y Clerc yn addasu'r cofnodion fel y nodir uchod.***

#### 16-10-05 **5 Materion yn Codi o'r Cofnodion**

##### 16-10-06 **Toiled y Marine, Dinas Dinlle**

Trafodwyd bygythiad Cyngor Gwynedd i gau toiled y Marine, Dinas Dinlle a chynnig CG i ymuno mewn partneriaeth trwy gyfrannu £4,000 i'w gadw ar agor am y cyfnod 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2018 gydag opsiwn i gyfrannu ymhellach ar gyfer 2018-19 neu gymryd meddiant o'r ased.

Penderfyniad y Cyngor y ei gyfarfod 19 Medi 2016 oedd fel a ganlyn-

*Fod y Cyngor yn oedi cyn penderfynu ar y cam nesaf hyd nes y bydd y Cyngorwyr Sir (Eric Jones a Dilwyn Lloyd) yn trafod y mater yn cyfarfod nesaf o'r Cyngor llawn*

Croesawyd Cadeirydd Cyngor Gwynedd i'r cyfarfod gan fod Dinas Dinlle oddi fewn y ward a chynrychioli'r ganddo.

Cyng.,, Eric Jones

- Yn diolch am y gwahoddiad.
- Yn gryf yn erbyn cau'r toiled
- Toiled ar agor trwy gydol y flwyddyn
- Meysydd carafanau Dinas Dinlle ar agor trwy'r flwyddyn ac yn bwysig fod toiled cyhoeddus ar gael i'r ymwelwyr ac i fusnesau.
- Cau'r toiled yn creu problemau er enghraifft pobol ac anabledau a phlant
- Methu dibynnu ar gaffis i ddarparu toiled

- Cost flynyddol rhedeg y toiled yn £15,239
- Cost y toiled yn yr uchaf yng Ngwynedd
- CG wedi rhoi cais am £160,000 i Gronfa Datblygiadau Cymunedau Gweledig am grant i gadw toiledau ar agor
- Cais wedi methu yn y cylch diweddaraf ond bydd cyfle eto i wneud cais
- Byddai hawl i'r Cyngor Cymuned wneud cais i'r dyfodol
- Gweithiwr yn cael ei gyflogi am 21 awr yr wythnos
- Gwahanol ffyrdd i godi arian er enghraifft peiriant arian
- CG yn gofyn am £4,000 - mater i chwi'r aelodau yw penderfynu ar hynny ai peidio
- Cyngor Llandwrog wastad wedi bod yn hael gyda rhoddion i fudiadau yn y plwyf
- Os ddim am gyfrannu bydd y toiled yn cael ei roi ar restr a chabinet CG yn penderfynu ar ei ddyfodol. Bydd peidio cyfrannu yn rhoi enw drwg i'r Cyngor hwn gan etholwyr.
- Dinas Dinlle'r unig lan mor yn Arfon. Lan mor i bawb nid yn unig i etholwyr Cyngor Cymuned Llandwrog
- Rhaid ystyried codi tal ar ddefnydd i'r dyfodol
- Bydd cau'r toiled yn peryglu statws Fflag Glas
- Cyd weithio Cyngorau lleol - opsiynau yma i Gyngor Llandwrog

#### Sylwadau Aelodau

RSJ - o'r £15,000 cost rhedeg flynyddol y toiled faint sydd yn mynd at 'overheads' Cyngor Gwynedd?  
Clerc – wedi cael gwybod gan CG mai costau uniongyrchol y toiled yw £15,000. Ni does gorbenion yn y ffigwr

AP - yn amheus o'r costau. Tydi cyflogi person am 21 awr yr wythnos ar 'mimumum wage' ddim yn cyrraedd £12,000 (sydd wedi ei ddyfynnu ar gyfer costau cyflogaeth)  
Clerc - rhaid ychwanegu costau yswiriant cenedlaethol a phensiwn y cyflogwr, felly'r ffigwr yn agos i'w le.

HJO - pam cost i Gyngor Llandwrog yn unig? Yn awgrymu cyfrannu £4,000 i brynu peiriant pres c i'w osod erbyn Ebrill nesa

HH - pam ddim gofyn i gynghorau cymuned gyfagos gyfrannu?

GOJ - rhy bell i ffwrdd gyda'r cyd-weithio i ddod at gasgliadau rŵan.

AWJ - y sylwadau yma eisoes wedi rhoi gerbron yng nghyfarfodydd blaenorol ac aelodau yn datgan anfodlonrwydd...drwg deimlad...amheuan...yr un sgrysiu a thrafodaethau hir a maith heb gyrraedd penderfyniad. Rhaid rŵan gofyn y cwestiwn - beth rydym am ei wneud? Rhaid cadw'r drafodaeth i'r cynnig sydd gan Gyngor Gwynedd - cyfrannu £4,000 ai peidio?

Rhoddwyd cynnig gerbron gan Cyng. Alun Wyn Jones -  
Cymeradwyo cyfraniad o £4,000 yn 2017-18 ac ystyried y sefyllfa yn ystod 2017 ar gyfer cyfraniad o £4,000 pellach yn 2018-19.

Cyng. Gerwyn Owen yn eilio

Gwelliant gan Gynghorydd Hywel J Owen -

Fod y Cyngor yn cyfrannu £4,000 i Gyngor Gwynedd osod giât fel bod defnyddwyr yn talu am ei ddefnydd o Ebrill 2017.

Ni chafodd gefnogaeth i'r gwelliant

Pleidleisiwyd ar y cynnig gwreiddiol-

O blaid y cynnig – 7 aelod – BW, HH, GOJ , AWJ, DML, GO, AP  
Yn erbyn y cynnig – 2 aelod RSJ. HJO

#### **Penderfynwyd ar y canlynol-**

***Fod y Cyngor yn cymeradwyo cyfraniad o £4,000 yn 2017-18 ac ystyried y sefyllfa yn ystod 2017 ar gyfer cyfraniad o £4,000 pellach yn 2018-19.***

16-10-07 **Gardd y Coleg, Carmel**

Gofynnodd Cyng. Helen Hughes a oedd unrhyw wybodaeth wedi cyrraedd ynglŷn â phwy sydd yn gyfrifol am y safle. Dywedodd y Clerc mai Gwion Llwyd ydi Cadeirydd y Pwyllgor ac y deallir fod y pwyllgor yn dal mewn bodolaeth.

***Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.***

16-10-08 **Cyd-weithio Cynghorau Lleol**

Adroddwyd ar y sefyllfa ddiweddaraf gan Cyng. Alun Wyn Jones-

- cyfarfod nesaf i'w gynnal 20 Hydref
- cynghorau yn trafod manyldebau cynnal fynwentydd i gael un cytundeb rhwng awdurdodau i geisio arbed arian
- trafod maes parcio Dinad Dinlle sed ased CG ond ar gael nail a'i i'r grwp neu i'r cyngor hwn yn unig
- grŵp yn parhau i edrych i ar hyfywdra'r cynllun

***Penderfynwyd derbyn y wybodaeth***

16-10-09 **6 Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Pwyllgor Cyllid (6 Hydref 2016)**

Derbyniwyd y cofnodion uchod fel rhai cywir ac fe'i harwyddwyd gan y Cadeirydd.

16-10-10 **7 Materion yn Codi o'r Cofnodion**

16-10-11 **Sefyllfa Ariannol y Cyngor 30 Medi 2016**

***Penderfynwyd derbyn argymhellion y Pwyllgor fel a ganlyn -***

- Fod y Cyngor yn derbyn y balansau at 30 Medi 2016 fel a nodwyd.***
- Fod y Cyngor yn derbyn y tanwariannau uchod ac yn cadw tanwariant arian yswiriant NFU o £2,390 mewn cronfa.***
- Fod y Cyngor yn ymrwymo £500 ar gyfer llwybr Bro Iago a £500 ar gyfer wal Bryn'rodyn***
- Fod y Cyngor yn cadw'r gweddill heb ymrwymo hyd nes y bydd y Cyngor yn gwneud ei benderfyniad i ymuno mewn partneriaeth gyda Chyngor Gwynedd i gadw toiled y Marine, Dinas Dinlle ar agor yn 2017/18.***

16-10-12 **Cyllideb 2017/18**

***Penderfynwyd ar y canlynol***

- Fod y Cyngor yn nodi fod yna falansau digonol ar gyfer cyfraniad o £4,000 yn 2017-18 i gadw toiled y Marine ar agor.***
- Fod y Cyngor yn ymddiried yn y Pwyllgor i weithio ar y gyllideb ac adrodd yn ol i'r Cyngor.***

16-10-13 **Archwiliad Allanol – Cyfrifon 2015-16**

## **Cymeradwyaeth Cyfrifon y Cyngor 2015-16 - Datganiad Blynyddol - Tystysgrif o dan Reoliadau 8B (1) ac 8B(2) Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (fel y ei diwygiwyd)**

Adroddwyd ga y Clerc nad oedd y cyfrifon wedi ei cymeradwyo gan yr Archwiltdd Allanol, sef cwmni BDO -LLP. Dyweddd y ddeddfwriaeth fod rhaid i'r cyfrifon gael eu cymeradwyo, a'l cyhoeddi erbyn 30 Medi. Y rheswm a roddir gan BDO -LLP yw fod yna oedi ganddynt yn cyfieuthu cofnodion.

Ychwanegodd y Clerc fod sawl cynghorau cymuned a thref wedi cael trafferth gyda'r achwilwyr newydd.

***Penderfynwyd cysylltu gyda Swyddfa Archwilio Cymru I ddatgan anfodlonrwydd y Cyngor gyda'r sefyllfa.***

### 16-10-14 **6 Pwyllgor Mynwentydd ac Eiddo**

#

Adroddwyd gan y Clerc nad fod Pwyllgor Mynwentydd ac Eiddo wedi ei ohirio am yr ail waith ers cyfarfod llawn ddiwethaf o'r Cyngor ar 19 Medi.

Trafodwyd digffyg presenoldeb pwyllgorau.

HJO yn gofyn i pob aelod ymdrechu i fod yn bresennol. Pwyllgorau yn gwneud gwaith da ac yn arbed amser yn cyfarfodydd llawn o'r Cyngor.

AP – anodd i pawb fod ar gael oherwydd esefyllfa gwaith.

Dyweddod y Clerc y gellir ystyried cynnal Pwyllgor Cyllid a Mynwentydd ar yr un noson, dywed o 7 i 8 ac o 8 i 9 o'r gloch. Gadawyd y mater i'r Clerc gysylltu gyda holiadur o'r noswaeithio sydd yn/ddim yn gyfleus.

### 16-10-15 **8 Cerrig Beddi Bryn'rodyn.**

Adroddwyd gan Cyng Alun Wyn Jones fod Mrs Hughes o Rhosgadfan wedi cysylltu gyda ef yn hlyn a difrodd i carreg fedd yn Bryn'rodyn.

Y carreg dan sylw yw y garreg gfarmor ddu sydd yn garreg fedd i deulu Mrs Hughes.

Adroddwyd gan y Clerc fod Madog Memorials wedi cael archeb waith am £750 i wneud gwaith atgyweirio oddi amgylch y beth a gosod y garreg yn flat yn daclus ar y bedd. Aeth y Clerc yn ei flaen i ddatgan fod dau ymgymwrwr wedi gwrthod rhoi pris ac atgyweirio'r garreg g ac mae'n debyg yr unig opsiwn yw carreg newydd.

Atgoffwyd yr aelodau fod gan y Cyngor £2,390 mewn cronfa ar gyfer cais gan deuleuoedd sydd gyda cerrig beddi a faluriwyd gan y gyrrwr feddwedig ;nol yn Rhagfyr 2015.

***Penderfynwyd trefnu pris gan ymgymwrwr iar gyfer atgyweirio'r garreg c os nad y'w bosib atgywirio, yna pris am garreg newydd.***

### 16-10-16 **9 Cytundeb Torri Gwair Mynwentydd a Llwybrau 2017-18**

Adroddwyd gan y Clerc fod y cytundeb presennol yn dod i ben 31 Mawrth 2017. Cytundeb tair blynedd ydoedd a Selwyn Jones ydi'r ymgymwrwr.

Gan fod yna grwp o gynghorau lleol yn erdych ar manyldebau torri gwair a cyfuno cytundebau, ynghyd a'r ffaith nad oes grant cynnal llwybrau ar gael yn 2017-18 gofynnodd y Clerc i'r Cyngor ystyried ymestyn y gytundeb bresennol am un flwyddyn.

Sylwadau Aelodau –

HJO – yn cytuno gyda'r awgrym, byddwn yn arbed amser ac arian

Cafwyd cynnig gan Cyng. Gerwyn Owen ac eiliwyd gan Cyng. Gwyn Owen Jones

### ***Penderfynwyd ar y canlynol-***

- i) Fod y Cyngor yn ymestyn y cytundeb presennol gyda Selwyn Jones am un flwyddyn yn unig o 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2018 ar gyfer***
  - torri gwair mynwentydd Carmel, Brynrodyn a Tir Caety a Llandwrog 9 (naw) gwaith y flwyddyn***
  - torri gwair mynwentydd Sant Tomos, Y Groeslon 5 (pump) gwaith y flwyddyn***
  - gwagio biniau y dair fynwent 26 wythnos***
- ii) Fod y Cyngor yn gofyn i'r Pwyllgor Mynwentydd ac Eiddo edrych ar opsiynau gwahanol ynglŷn a cynnal llwybrau***
- iii) Fod y Cyngor yn gofyn i'r Pwyllgor Mynwentydd ac Eiddo i edrych ar trefniadau torri gwair caeau pel-droed Carmel a Fron gan nad yw'r caeau ar y gytundeb presennol***

## **Gohebiaeth**

### **16-10-14 10 Dyfodol Llywodraeth Leol – Datganiad y Gweinidog**

Tynnwyd sylw yr aelodau i ddatganiad gan Mark Drayford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol ar Hydref 4ydd 2016 ynglŷn â dyfodol Llywodraeth Leol Cymru. Nodwd yn benodol y sylwadau am ddyfodol Cyngorau Tref a Chymuned ....

***Penderfynwyd derbyn y wybodaeth heb sylwadau.***

### **16-10-17 11 Gridiau'r Fron**

Trafodwyd gohebiaeth a dderbyniwyd gan GMr Willcox a Pam Smith o'r Feon – gweler y rhaglen am fanylion.

***Penderfynwyd cadw'r mater ar y bwrdd gan fod y mater wedi ei gyfeirio at yr Ombwdsman***

## **12 Ceisiadau Cynllunio - Ceisiadau Hydref 2016**

16-10-18 **C16/1188/17/LL**

## 1 Trallwyn Teras, Cilgwyn, Carmel. LL54 7SB

Dymchwel porth ac estyniad blaen presennol a chodi estyniad blaen yn ei le.

### Materion Ariannol

#### 16-10-23 **13 Derbyniadau i 30 Medi 2016**

Manylion	Cyfanswm
dim	

#### 16-10-24 **14 Taliadau sydd angen eu hawdurdodi gan y Cyngor -**

Manylion	Swm heb TAW	Cyfanswm y Taliad	Rhif Siec
Cyflog y Clerc - Hydref 2016	£420.13	£420.13	Uniongyrchol
HMRC - Treth Incwm Hydref 2016	£111.20	£111.20	Uniongyrchol
Lwfans Clerc – Hydref 2016	£30.00	£30.00	Uniongyrchol

#### 16-10-25 **15 Dyddiadau Cyfarfod Nesaf**

Cyfarfod o'r Cyngor - Nos Lun, 21 Tachwedd 2016  
Pwyllgorau a Gweithgorau - i'w gadarnhau

#### 16-10-26 **16 Materion i'w Codi gan aelodau i gyfarfod nesaf o'r Cyngor llawn (21 Tachwedd)**

##### **Cyng. Alan Patterson, Carmel**

#### 16-10-27 **Twmpath ger yr Hen Gop, Carmel**

Wedi derbyn cwynion gan gyrrwyr a cherddwyr fod y twmpath yn beryglus gan ei fod wedi sgwario ar yr ymylon..  
Clerc i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd.

##### **Cyng. Alun Wyn Jones, Y Groeslon**

#### 16-10-28 **Fynwent Bryn'rodyn**

Sawl mater angen sylw-

- Gordyfiant – coed a gwrychoedd yn y fynwent
- Mwsog ar lwybrau
- Wal mewnol ac allanol angen sylw.

Pwyllgor Mynwentydd i drafod y materion a gweithredu fel sydd ei angen

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.45 yr hwyr**



<b>Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir -</b>	
	<b>Cyng. Robert Jones, Cadeirydd y Cyngor</b>
<b>Dyddiad -</b>	